COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

+TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 123

Amseru: Arferol

Teitl: Cyfraniad Ariannol tuag at Fan Arsylwadau Technegol

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Mae'r fan arsylwadau technegol (S20 - VW Transporter) wedi cael ei defnyddio gan HDP ers 2007 ac mae angen ei hadnewyddu. Mae'r Uned Cynnal Cerbydau wedi gweld cerbyd 'newydd' addas yn fflyd presennol yr heddlu, felly ni fydd costau ychwanegol o ran newid y fan. Allosodwyd y camerâu cudd ac offer recordio sydd yn y fan yn barod o'r fan flaenorol, felly maen nhw wedi bod mewn defnydd ers 2003 (16 mlynedd). Mae'r dechnoleg yn hen erbyn hyn, ac mae problemau trydanol a mecanyddol wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar. Mae hynny, wrth gwrs, yn effeithio ar ansawdd y deunydd tystiolaethol a geir pan mae'r fan yn cael ei defnyddio adeg ymchwiliadau. Mae'r CHTh wedi penderfynu ariannu offer newydd am gost o £28,170. Daw'r arian o gyllideb cronfeydd wrth gefn NDORS.

Argymhelliad: Cyfrannu £28,170 o gyllideb cronfeydd wrth gefn NDORS er mwyn prynu offer newydd ar gyfer y Fan Arsylwadau Technegol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: [signature] **Dyddiad:** 16/8/2019